

Taflen wybodaeth i gyfranogwyr

Datblygu Mesur Gwytnwch

Beth yw pwrpas y prosiect hwn?

Rydym yn datblygu holiadur newydd i fesur gwytnwch pobl sy'n byw gyda dementia. Rydym am edrych ar sut mae pobl yn ymdopi tra'n byw gyda diagnosis o ddementia. Gyda'ch cymorth chi byddwn yn gallu dod o hyd i'r cwestiynau cywir i'w defnyddio yn yr holiadur hwn.

Mae'n bwysig datblygu yr holiadur oherwydd bydd yn helpu ymarferwyr iechyd a gofal ac eraill (e.e., ymchwilwyr) i gymryd agwedd fwy cadarnhaol tuag at gefnogi pobl â dementia drwy nodi pa agweddau ar fywyd y mae pobl yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda, a lle byddent yn gwerthfawrogi rhywfaint o help. Gallai defnyddio mesur fel hwn hefyd ddangos pryd mae gwasanaethau'n gweithio'n dda ac yn gwella bywydau pobl.

Pam ydw i wedi cael gwahoddiad i gymryd rhan yn yr astudiaeth hon?

Rydych wedi cael gwahoddiad i gymryd rhan gan eich bod yn berson sy'n byw gyda diagnosis o ddementia.

Drwy gydsynio i'r astudiaeth hon, rydych yn cadarnhau eich bod yn bodloni ein meini prawf cynhwysiant:

- Rydych yn byw gyda diagnosis o unrhyw fath o ddementia
- Rydych yn 18+ oed
- Rydych yn byw yn y DU
- Rydych chi'n gallu ystyried a deall beth fydd ei angen ar yr astudiaeth ymchwil.

Oes rhaid i mi gymryd rhan?

Chi sydd i benderfynu os ydych eisiau cymryd rhan. Os penderfynwch gymryd rhan, mae croeso i chi dynnu'n ôl unrhyw bryd. Os byddwch yn penderfynu tynnu'n ôl o'r astudiaeth, byddwn yn cadw'r atebion rydych wedi'u rhoi i ni hyd at y pwynt hwnnw, oni bai eich bod yn gofyn i ni beidio â gwneud hynny.

Beth fydd yn ei olygu os byddaf yn penderfynu cymryd rhan?

Hoffem ofyn ichi ateb rhai cwestiynau. Mae'r cwestiynau'n gofyn am ddewis ateb (fel dewis 1-5 ar raddfa). Mae'r cwestiynau'n ymwneud â chi a sut rydych chi'n teimlo. Nid oes atebion cywir nac anghywir. Mae'r holiadur cyfan yn cynnwys 59 cwestiwn. Rydyn ni'n meddwl y gallai gymryd rhwng 20 a 60 munud i'w gwblhau. Gallwch ddewis llenwi'r holiadur mewn arolwg ar-lein, neu ar bapur. Os byddwch yn llenwi'r holiadur ar-lein, byddwch yn gallu camu i ffwrdd o'r arolwg am hyd at 45 munud os ydych angen seibiant.

Sylwer: dim ond yn Saesneg y mae'r cwestiynau ar gael ar hyn o bryd, ond gobeithiwn y bydd y gwaith yn llywio opsiynau i'w addasu i'r Gymraeg yn y dyfodol.

Cydsynio i'r astudiaeth

Os byddwch yn penderfynu cymryd rhan yn yr astudiaeth, gofynnir i chi dicio blwch yn cadarnhau eich bod yn deall y daflen wybodaeth hon a'ch bod yn cytuno i gymryd rhan.

Beth yw anfanteision a risgiau posibl cymryd rhan?

Nid ydym yn meddwl y bydd cymryd rhan yn golygu unrhyw anfanteision nac unrhyw risgiau penodol i chi, nac y gallai achosi unrhyw niwed i chi. Efallai y bydd rhai cwestiynau neu bynciau sy'n sensitif i chi. Rydych chi'n rhydd i beidio ag ateb unrhyw gwestiynau rydych chi'n teimlo nad ydyn nhw'n briodol, neu sy'n peri gormod o ofid i chi. Gallwch hefyd gymryd seibiant neu stopio cymryd rhan. Os byddwch yn rhoi'r gorau i gymryd rhan, byddwn yn cadw'r atebion rydych wedi'u rhoi i ni hyd at y pwynt hwnnw, oni bai eich bod yn gofyn i ni beidio.

Rhestrir rhai awgrymiadau ynghylch y cymorth sydd ar gael ar dudalen olaf yr holiadur (gyda manylion cyswllt lle bo modd).

Beth yw manteision posibl cymryd rhan?

Nid oes unrhyw fanteision uniongyrchol i chi o gymryd rhan yn yr astudiaeth hon. Fodd bynnag, drwy gymryd rhan, rydym yn gobeithio y bydd y wybodaeth a geir o'r prosiect ymchwil hwn yn helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu holiadur newydd defnyddiol ac ymyriadau posibl a fydd o fudd i bobl eraill y mae dementia'n effeithio arnynt.

A fyddaf yn cael fy nhalu am gymryd rhan yn yr astudiaeth?

Rydym yn ddiolchgar iawn am eich cyfraniad. Byddwch yn cael cynnig taleb siopa gwerth £20 (e.e. Love2Shop) fel diolch am ateb y cwestiynau. Os ydych yn ateb y cwestiynau ar-lein, gofynnir i chi am eich cyfeiriad ar ddiwedd yr arolwg, fel y gallwn bostio'r daleb. Os byddwch yn llenwi ar bapur, byddwn yn darparu slip cyfeiriad ar wahân i chi ei anfon yn ôl atom, ynghyd â'r holiadur wedi'i gwblhau. Ni fyddwn yn cadw eich cyfeiriad unwaith y bydd y daleb wedi'i phostio i chi.

Beth os aiff rhywbeth o'i le?

Yn y lle cyntaf, soniwrch wrth arweinydd yr astudiaeth gwytnwch am eich pryderon, yr Athro Gill Windle (g.windle@bangor.ac.uk / 01248 383050), Canolfan Datblygu Gwasanaethau Dementia, Ysgol Gwyddorau Meddygol ac Iechyd, Prifysgol Bangor, Fron Heulog, Ffordd Caergybi, Bangor, Gwynedd. Wales.

Fodd bynnag, os teimlwch nad yw eich pryder wedi cael ei drin yn foddhaol, gallwch gysylltu â Chadeirydd y Pwyllgor Moseg drwy l.jones@bangor.ac.uk.

Neu gallwch gysylltu â Phennaeth Llywodraethu a Chydymffurfiaeth, Swyddfa Llywodraethu a Chydymffurfio, Gwasanaethau Corfforaethol, Prifysgol Bangor, Ffordd y Coleg, Bangor, Gwynedd, LL57 2DG.

A fydd y ffaith fy mod yn cymryd rhan yn y prosiect hwn yn cael ei gadw'n gyfrinachol?

Bydd eich cyfranogiad yn cael ei gadw'n ddiennw, sy'n golygu na fydd unrhyw wybodaeth bersonol a fyddai'n datgelu pwy ydych yn cael ei storio fel rhan o'r astudiaeth ymchwil. Ni fydd modd eich adnabod mewn unrhyw adroddiadau neu gyhoeddiadau dilynol. Bydd yr holl wybodaeth a gasglwn gennych yn cael ei chadw'n gwbl gyfrinachol yn unol â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a deddfwriaeth berthnasol arall. Bydd eich ymatebion yn cael eu cadw'n ddiogel mewn ffolderi wedi'u hamgryptio (wedi'u diogelu gan gyfrinair) gan y tîm ymchwil ym Mhrifysgol Bangor ac UCL, sef ein partneriaid prosiect arweiniol. Bydd unrhyw ddogfennau papur yn cael eu cadw'n ddiogel ym Mhrifysgol Bangor. Os hoffech dderbyn taleb siopa fel diolch, byddwn yn gofyn am eich cyfeiriad (at ddiben anfon yn unig) - unwaith y bydd y daleb wedi'i phostio, ni fyddwn yn cadw eich cyfeiriad.

Beth fydd yn digwydd i ganlyniadau'r prosiect ymchwil?

Gobeithiwn rannu canlyniadau'r astudiaeth mewn gwahanol ffyrdd, megis cynadleddau, cyfarfodydd ac mewn erthyglau cyfnodolion. Ni chewch eich enwi mewn unrhyw adroddiadau na chyhoeddiadau. Os byddwn yn cynnwys eich cyfraniadau, bydd y rhain yn cael eu cyflwyno mewn ffordd na fyddai'n cynnwys gwybodaeth a allai ddatgelu pwy ydych.

Pwy sy'n trefnu ac yn ariannu'r ymchwil?

Ariennir yr ymchwil hwn gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd. Mae'r astudiaeth hon yn cael ei threfnu gan Brifysgol Bangor ac mae partneriaid y prosiect wedi'u lleoli ar draws Prifysgol Bangor, UCL, a Phrifysgol Nipissing yng Nghanada. Darperir trefniadau indemniad ar gyfer yr astudiaeth gan Brifysgol Bangor.



Gwybodaeth bellach a manylion cyswllt

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am yr ymchwil hwn neu os oes gennych bryder am unrhyw agwedd ar yr astudiaeth hon, cysylltwch â'r prif ymchwilydd, Jen Roberts (j.roberts@bangor.ac.uk / 01248 388346).